

9:30	Taith Iaith Trafodaeth: Erthyglau	
10:30	Egwyl	10 munud
10:40	Y Gymraeg fel iaith Ewropeaidd ym myd Polisi a Chynllunio Iaith. Trafodaeth	
11:40	Egwyl	10 munud
11:50	Cyflwyniad i derminoleg y maes (Glossary Moodle)	
12:25	Dysgu Cyfeiriol a Ffarwelio	

AMCANION Y CWRS

- Ystyried yn feirniadol brif agweddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith drwy gyfeirio at ddamcaniaethau a dadansoddiadau perthnasol ac enghreifftiau ymarferol a dynnir o Gymru a thramor, ynghyd â thrafod y prif ddatblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol o safbwynt cynllunio iaith yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed a'r unfed ganrif ar hugain.




DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu:

- trin yn feirniadol darddiad, prif nodweddion a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith, gan gyfeirio at awduron allweddol;
- trafod yn ddadansoddol iaith fel agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, a'r hyn a olyga hynny i unigolion ac i berthynas grwpiau iaith â'i gilydd;
- cyfeirio at ymchwil a safbwyntiau arwyddocaol mewn nifer o feysydd craidd (e.e. trosglwyddo iaith, iaith a hunaniaeth, iaith a diwylliant, iaith ac economi, statws cyfreithiol) a'u gwerthuso'n feirniadol;
- cyfeirio at brif ffynonellau data demograffeg iaith, gan ddethol data perthnasol i feysydd diddordeb penodol;
- adnabod a thrafod datblygiadau a nodweddion polisi cyhoeddus ar gyfer ieithoedd llai a rhanbarthol, gan gyfeirio at Gymru, gwledydd yn Ewrop a Gogledd America, a chymharu datblygiadau a thueddiadau mewn gwledydd gwahanol.






Oedrannau

0% - 20% - Dim i fawr ddim
20% - 40% - mwy o Saesneg/iaith arall/ieithoedd eraill na Chymraeg
40% - 60% - tua hanner a hanner (Cymraeg a Saesneg/Saesneg a ieithoedd eraill)
60% - 80% - mwy o Gymraeg na Saesneg etc
80% - 100% - llawer mwy o Gymraeg na Saesneg/ieithoedd eraill

0-3 , cyn ysgol	23-27 , ugeiniau canol
4-7 , cynradd isaf	28-34 , dros drothwy'r 30
8-11 , cynradd uchaf	35-40 , diwedd y 30au
11-13 , uwchradd isaf	40-50 , 40au
14-16 , TGAU	50-60 , 50au
16-18 , addysg ôl 16/allan o addysg/gwaith	60+ tuag ymddeol!
18-22 , addysg uwch / gwaith	

Taith iaith CATRIN

Taith iaith



Oedrannau


0% - 20% - Dim i fawr ddim
20% - 40% - mwy o Saesneg/iaith arall/ieithoedd eraill na Chymraeg
40% - 60% - tua hanner a hanner (Cymraeg a Saesneg/Saesneg a ieithoedd eraill)
60% - 80% - mwy o Gymraeg na Saesneg etc
80% - 100% - llawer mwy o Gymraeg na Saesneg/ieithoedd eraill

0-3, cyn ysgol
4-7, cynradd isaf
8-11, cynradd uchaf
11-13, uwchradd isaf
14-16, TGAU
16-18, addysg ôl 16/allan o addysg/gwaith
18-22, addysg uwch / gwaith

23-27, ugeiniau canol
28-34, dros drothwy'r 30
35-40, diwedd y 30au
40-50, 40au
50-60, 50au
60+ tuag ymddeol!

Taith iaith ELIN

Taith iaith



Oedrannau

0% - 20% - Dim i fawr ddim
20% - 40% - mwy o Saesneg/iaith arall/ieithoedd eraill na Chymraeg
40% - 60% - tua hanner a hanner (Cymraeg a Saesneg/Saesneg a ieithoedd eraill)
60% - 80% - mwy o Gymraeg na Saesneg etc
80% - 100% - llawer mwy o Gymraeg na Saesneg/ieithoedd eraill

0-3, cyn ysgol
4-7, cynradd isaf
8-11, cynradd uchaf
11-13, uwchradd isaf
14-16, TGAU
16-18, addysg ôl 16/allan o addysg/gwaith
18-22, addysg uwch / gwaith
23-27, ugeiniau canol
28-34, dros drothwy'r 30
35-40, diwedd y 30au
40-50, 40au
50-60, 50au
60+ tuag ymddeol!


Darnau Darllen

**From Theory to Practice (and Vice Versa): Review, Reconsideration
and Reiteration**

J Fishman

Brwydr Ryngwladol yw Brwydr yr Iaith

Elin Haf Gruffydd Jones




From Theory to Practice (and Vice Versa): Review, Reconsideration and Reiteration

J Fishman

- Beth oedd eich barn?
- Oedd unrhyw dermau newydd neu anghyfarwydd?

Cwricwlwm spiral

Dysgu Cyfeiriol: Darn Trawsieithu / AI



Brwydr Ryngwladol yw Brwydr yr Iaith

Elin Haf Gruffydd Jones

Grwpiau Trafod. Trafodwch y canlynol:

1. *'Trwy hyn fe atgyfnerthwyd y syniad nad oedd unrhyw beth yn anochel am dranc iaith: nid marw'n naturiol a wna ieithoedd, ond cael eu hamddifadu o amodau byw angenrheidiol'.*
2. Gwell miliwn o 'siaradwyr' neu 500k o bobl yn defnyddio'r iaith bob dydd?

Brwydr ryngwladol yw brwydr yr iaith

ELIN HAF GRUFFYDD JONES

PROFIAD RHYNGWLADOL, YN bennaf, yw Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i mi, ac un sy'n rhan o symudiad ehangach o ymgyrchoedd gan bobl ledled y byd i greu parhad a dyfodol i'w hieithoedd, eu cymunedau a'u cenhedloedd.

Ar hyd y blynyddoedd, mae cyd-destunau ieithyddol lleiafrifedig eraill wedi cynnig ffynhonnell barhaus o werthfawr wrth gyrraedd gwell dadansoddiad o sefyllfa Cymru a'r Gymraeg, o weld ein byd o bersbectif gwahanol ac o gyrchu syniadau newydd ar gyfer ceisio newid y drefn. Wedi'r cyfan, mae 'brwydr yr iaith' yn un gyffredin iawn yn rhyngwladol, er



Ystafelloedd Bach



10 munud

Based on a review of his body of work in sociolinguistics, there is no evidence that Joshua Fishman, the American sociologist and linguist, ever discussed or used the terms "Xian" and "Yian". The search results indicate these terms have different origins and meanings.

Meaning of "Xian" and "Yian"

- The terms are likely of Chinese origin and are not related to Fishman's theories on diglossia, bilingualism, and language revitalization.
- **Xian:** In Chinese, *xian* (仙) refers to an "immortal" or "celestial being" in Taoist philosophy, or a virtuous and worthy person (贤). The city of Xi'an (西安) is also written with these characters and means "western peace".
- **Yian:** Also likely of Chinese origin, Yian (义安) can mean "righteous tranquility" or "suitable peace". It can also be a variant of Western names like Ian.
- These terms might also be confused with the concept of Yin and Yang, the dualism of balancing forces in Chinese philosophy, which are sometimes symbolized by two fish.

Google - AI

Joshua Fishman's concepts related to "Xian" and "Yian" are rooted in his work on language revitalization and cultural identity. He distinguishes between "Xish" (the threatened minority language) and "Yish" (the dominant language)

(Academia.edu)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Y Gymraeg fel iaith Ewropeaidd ym myd Polisi a Chynllunio Iaith



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies





**Cymharu'r
Gymraeg â
ieithoedd eraill
yn Ewrop
heddiw**

Sut gall ehangu ein
gwybodaeth o gyd-
destunau ieithoedd eraill
ddyfnhau ein dealltwriaeth
o sefyllfa'r Gymraeg
a chyrraedd gwell
datrysiadau?

Mae dros **40 miliwn** o bobl
ar draws Ewrop*
yn siarad iaith diriogaethol
ag eithrio iaith / ieithoedd
swyddogol eu gwladwriaeth
– fel iaith gyntaf,
neu ail neu drydedd+ iaith –
yn debyg iawn i'r sefyllfa
yma yng Nghymru.

Ffynhonnell: *Braslun o ieithoedd Ewrop*
Barcelona: CIEMEN (Centre Internacional
Escarré per les Minories i les nacions).

Gweld y byd drwy fapiau



Galiseg
Gwyddeleg
Astwrieg
Cernyweg
Gaeleg yr Alban

Basgeg
Llydaweg
Catalaneg
Aragoneg
Ocsitaneg
Sgoteg
Sardineg

Corseg
Ffriseg
Ffriseg yn yr Almaen
Almaeneg yng Ngwlad Belg
Daneg yn yr Almaen
Almaeneg yn Nenmarc

Ladin
Ffriwleg

Albanieg yn yr Eidal
Groeg yn yr Eidal
Eidaleg yn Slofenia
Slofeneg yn Awstria...

Sami
Sorbeg

Cashubieg
Ieithoedd yng Ngwlad Pwyl
Hwngareg yn Slofacia

Rwthereg
Hwngareg yn Rwmania
Ieithoedd Trawsffiniol yng ngwledydd y Balcan
Swedeg yn y Ffindir
Latgalieg yn Latfia
... ac yn y blaen

Gweld y byd drwy fapiau



Yn ôl teuluoedd ieithyddol

Dilyn y lliwiau i weld continwmm ieithyddol
a'r berthynas rhwng ieithoedd a thafodieithoedd?

Ieithoedd Indo-Ewropeaidd
ag eithrio...

Basgeg

Ieithoedd Ffino-Wgrig

(e.e. Ffinneg, Hwngareg, Estoneg)



Gweld y byd drwy fapiau



Rhai ieithoedd lleiafrifol Ewrop yn **absennol** o'r map
Ffiniau tiriogaethau ieithyddol ddim yn cyfateb i ffiniau
gwladwriaethau

Tiriogaethau ieithyddol yn newid dros amser
Y tŷ ym mhentref Nabrežina (Slofeneg) neu Aurisina (Eidaleg)

Hyd at 1918:	Ymerodraeth Awstria-Hwngari
1918 - 1943:	Teyrnas yr Eidal
1943 – 1945:	Yr Almaen (Hitler)
Mai-Mehefin 1945:	Iwgoslafia (Tito)
1945 – 1954:	Tiriogaeth Rydd Trieste (o dan fyddinoedd y DU ac UDA)
1954 – ymlaen:	Gweriniaeth yr Eidal

Sut caiff lleiafrifoedd ieithyddol neu ieithoedd lleiafrifol eu creu?

Statws a Thiriogaeth: Ieithoedd Ewrop

- **ieithoedd swyddogol gwladwriaethau e.e.**

24 iaith swyddogol yr Undeb Ewropeaidd – ymgyrch i gael Catalaneg, Basgeg a Galisieg i gael y statws hwn



- **ieithoedd swyddogol gwladwriaethau nad ydynt yn ieithoedd mwyafrifol o ran defnydd dyddiol e.e.**

Gwyddeleg yn Iwerddon

- **ieithoedd trawsffiniol: mwyafrifol a swyddogol mewn gwladwriaeth benodol ac yn lleiafrifol (swyddogol neu answyddogol) mewn gwladwriaeth gyfagos e.e.**

Almaeneg yng Ngwlad Belg, Denmarc, yr Eidal

- **ieithoedd sydd â statws swyddogol mewn un rhanbarth neu wladwriaeth e.e.**

Cymraeg, Catalaneg, Basgeg, Galiseg, Sami, Gaeleg yr Alban

- **ieithoedd heb statws swyddogol mewn unrhyw wladwriaeth e.e.**

Llydaweg, Corseg, Cernyweg



Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Cyngor Ewrop




"iaith a ddefnyddir yn draddodiadol o fewn tiriogaeth benodol i wladwriaeth gan ddinasyddion o'r wladwriaeth honno sy'n ffurfio grŵp sy'n llai o ran nifer na gweddill poblogaeth y wladwriaeth; ac yn wahanol i iaith(iethoedd) swyddogol y Wladwriaeth honno".

■ Wedi llofnodi
a chadarnhau
25

■ Wedi llofnodi,
heb gadarnhau
8 (+1 Rwsia)

□ Heb lofnodi
heb gadarnhau
13

1998-2023
25 oed



Llofnodwyd...5 Tachwedd 1992

1. Norwy
2. Y Ffindir
3. Hwngari
4. Yr Iseldiroedd
5. Liechtenstein
6. Yr Almaen
7. Denmarc
8. Sbaen
9. Awstria
10. Lwcsembwrg
18. Y Deyrnas Gyfunol (2000)

Y 5 cyntaf i gadarnhau, a'r Siarter yn dod i rym ar 1 Mawrth 1998.

1. Y Ffindir
2. Norwy
3. Hwngari
4. Yr Iseldiroedd
5. Croatia

14. Y Deyrnas Gyfunol
(2001)

Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Cyngor Ewrop




Mae'r Siarter yn cwmpasu **81** o
ieithoedd... a ddefnyddir gan 206 o
leiafrifoedd cenedlaethol neu grwpiau
ieithyddol y mae 76 yn elwa o Ran II
yn unig a 123 o Rannau II a III. Mae
ieithoedd 6 grŵp ieithyddol yn perthyn
i'r ddau gategori uchod, yn dibynnu ar y
rhanbarth a'r wladwriaeth.

 Wedi llofnodi
a chadarnhau
25

 Wedi llofnodi,
heb gadarnhau
8 (+1 Rwsia)

 Heb lofnodi
heb gadarnhau
13

1998-2023
25 oed



Meysydd Rhan III

8. Addysg
9. Y System Gyfiawnder
10. Awdurdodau Gweinyddol a Gwasanaethau
Cyhoeddus
11. Cyfryngau
12. Gweithgareddau a Chyfleusterau Diwylliannol
13. Gweithgareddau Economaidd a Chymdeithasol
14. Cyfnewid Trawsffiniol

Dadansoddi sefyllfa'r Gymraeg heddiw yn y cyd-destun Ewropeaidd



Yn erbyn gwahanol ddangosyddion a rhestrau neu gyfuniadau o ddangosyddion

(e.e. GIDS, eGIDS, UNESCO leithoedd mewn perygl...

Arolygon cynhwysfawr e.e. Astudiaeth Euromosaic ar atgynhyrchu cymunedol.

Ideoleg, persbectif, fframwaith ddamcaniaethol... Beth yw'r pwyslais neu'r ffocws?

Troeon a thueddiadau mewn astudiaethau... e.e. yw'r pwyslais wedi bod ar y digidol/rhwydweithiau ac yn troi “yn ôl” at y daearyddol?



Rhwydweithiau Ewropeaidd ym maes Polisi a Chynllunio Iaith

Rhwydweithiau ymgyrchol, academiaidd,
llywodraethau, neu gyfuniadau





Edrych tu hwnt i Ewrop

Gweithiau allweddol a phrofiadau
Gogledd America

Mafalda



2022-2032 | INTERNATIONAL DECADE OF
Indigenous Languages



Rhanbarthau eraill y byd

Persbectifau a systemau gwybodaeth
pobloedd frodorol

Degawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol
UNESCO

Ffactorau i'w hystyried wrth adnabod ardaloedd all gynnig cymhariaeth



Mae rhai o'r ieithoedd hyn yn iaith y
mwyafrif dros y ffin yn y wladwriaeth nesaf

Mae rhai yn ieithoedd unigryw, heb wladwriaeth

Mae gan rai bolisiau penodol i gysylltu economi a iaith

Mae rhai yn ieithoedd swyddogol yn eu rhanbarthau
/ gwledydd



Y Gymraeg yn ei chyd-destun Ewropeaidd

- Ieitheg neu ieithyddiaeth: iaith Geltaidd, Indo-Ewropeaidd. Yr elfen Ladin yn y Gymraeg. Dylanwad y Saesneg.
- Iaith yn Ewrop ganoloesol: traddodiad llenyddol parhaus, testunau cyfreithiol, meddygol, gwyddonol, crefyddol ac ati. Iaith y Dadeni
- Iaith lenyddol Ewropeaidd yn y cyfnod modern, llythrennedd dosbarth gweithiol, crefydd anghydfurfiol
- Y Gymraeg fel iaith gyfoes, leiafrifol/leiafrifedig o fewn un wladwriaeth, gyda gweinyddiaeth leol o fewn ffiniau'r wlad, a Senedd ddatganoledig
- Y Gymraeg fel iaith ddinesig, drefol, cefn gwlad – ar draws cenedlaethau ac oedrannau
- Ardaloedd dwysedd uwch, canolig ac is, iaith gymunedol a iaith genedlaethol
- Sylfaen economaidd eang gan ei siaradwyr
- Buddsoddiad cyhoeddus a statws cyhoeddus



EGWYL



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



The background image shows a crowd of people, likely at a festival or event. In the foreground, a person is wearing a large, red and green patterned garment, possibly a costume or a large hat, with a red and green striped band. The word "Terminoleg" is overlaid in white text. The image has a blue tint and a semi-transparent overlay.

Terminoleg

TRAFOD TERMINOLEG

Beth yw pwrpas cofnodi terminoleg y maes wrth ei astudio?

1. Cyfrannu at derminoleg yn Gymraeg
2. Gwerthuso terminolegau a bathiadau newydd yn y Gymraeg
3. Olrhain gwreiddiau'r cysyniad, a'i ddatblygiad dros amser
4. Ystyried sut mae ieithoedd eraill wedi trafod y maes
5. Ystyried sut rydym yn trafod y maes mewn gwahanol ieithoedd? Pa dermau rydym yn eu defnyddio yn Gymraeg a pha rai yn Saesneg.
6. Ystyried y syniad o sofraniaeth ieithyddol ieithoedd unigol a chyfatebiaeth rhwng ieithoedd.

Term Cymraeg	Term Saesneg	Term ieithoedd eraill	Ffynhonnell / au	Diffiniad Drafft?	Nodiadau pellach
Gofod anadlu? Anadle??	Breathing Space	Arnas gunne (Basgeg)	Fishman (1991)		Ailgyflwynwyd i'r maes yng nghyddestun gofodau digidol.
Priod iaith	??	Lengua propia (Sb) Llengua propia (Cat)			Mae'r cofnod o'r term 'priod iaith' yn Gymraeg yn deillio o'r 17g. A'r term priod o'r 14g. Gweler GPC.
Lleiafrifedig	Minoritised Minoritized	Minoritzada (Cat) Minorizada (Sb)			
Lleiafrifol	Minority				

<https://moodle.uwtsd.ac.uk/mod/glossary/view.php?id=523770>

ECDA7008C / Cyffredinol / Trafod Terminoleg

Trafod Terminoleg

Rhestr termauGosodiadauMore

Gweithgaredd i rannu syniadau
Nodi terminoleg newydd

Byddwn ni'n edrych ar eich sylwadau ac awgrymiadau ar ddechrau sesiynau.

Cofiwch, defnyddiwch ffynonellau swyddogol yn eich aseiniadau a diffiniadau cydnabyddedig.

Add entry

Chwilio

Chwilio'r testun llawn

Pori drwy'r eirfa gan ddefnyddio'r mynegai hwn

Arbennig | A | B | C | CH | D | DD | E | F | FF | G | NG | H | I | L | LL | M | N | O | P | PH | R | RH | S | T | TH | U | W | Y | Y CYFAN

Dysgu Cyfeiriol

Darllenwch eto:

Reversing Language Shift (Fishman)

- Ble fydddech chi'n gosod sefyllfa'r Gymraeg ar raddfa GIDS?
- Sut bydddech chi'n mynd ati i addasu'r GIDS ar gyfer 2025, os o gwbl?





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Yn y sesiwn nesaf:

Dylanwadwyr: Gweithiau allweddol ym maes Cynllunio Iaith.

Sylfeini cysyniadol a deallusol

Gwyddor Polisi a Chynllunio Iaith yn ei chyd-destun cymdeithasegol



Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies



